**LC342**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

## Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) (Rhif 9) (Diwygio) (Rhif 2) 2001

**Y Cefndir**

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymestyn y cyfnod ar gyfer gweithredu Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio Rhif 9 hyd at 30 Tachwedd 2001 ac yn newid y darpariaethau sy'n ymwneud ag anfon semen ac allforio ceffylau.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

**Sylwadau Cyffredinol**

Mewn perthynas â'r diwygiad i Reoliad 14, nodir nad yw paragraff (3) wedi'i ddiwygio. Tybir bod hyn yn fwriadol fel mai dim ond mewn perthynas ag anifeiliaid sy'n cael eu hallforio i Aelod-wladwriaeth arall y mae'r gofyniad i ychwanegu geiriau at y dystysgrif fel ym mharagraff (3) yn parhau i fod yn weithredol, er bod y gofyniad yn y dystysgrif yn cael ei ymestyn i gynnwys anifeiliaid sy'n cael eu hanfon i Ogledd Iwerddon neu Ynys Manaw.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

23 Hydref 2001